

Ynglŷn â'r gais

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus cyn llenwi eich cais.

1. Beth yw Panel leuenctid IOPC?

Mae Panel leuenctid IOPC yn rhoi cyfle i oedolion ifanc ddylanwadu ar a newid y system cwynion am yr heddlu ledled Cymru a Lloegr. Fel aelod o'r panel, bydd gennych rôl allweddol wrth helpu i gefnogi, herio a llywio gwaith [Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu](#) (IOPC).

Mae hon yn rôl bwysig – mae eich llais yn bwysig ar gyfer helpu IOPC i sicrhau eu bod yn gwrandao ar bobl ifanc ac yn ystyried eich anghenion mewn perthynas â chwynion am yr heddlu.

Sefydlwyd y Panel leuenctid yn 2018 ac mae wedi cael effaith enfawr ers hynny. Mae'r Panel wedi helpu i lunio strategaeth, recriwtio staff, cyhoeddiadau ac ymgyrchoedd IOPC.

Mae'r Panel hefyd wedi casglu a chyhoeddi barn miloedd o bobl ifanc ledled Cymru a Lloegr trwy weithdai dan arweiniad pobl ifanc ar y lefel leol ac arolwg cenedlaethol blynyddol.

Yn fwy diweddar, mae'r Panel wedi canolbwyntio ar ehangu eu gwaith dylanwadu, ymgysylltu ag arweinwyr systemau ar y lefel genedlaethol, cynnal digwyddiadau bwrdd crwn polisi, a chael effaith sylweddol ar wneud penderfyniadau ar draws y sector plismona.

Mae gwaith dylanwadu'r Panel yn cael ei arwain gan ein [Maniffesto ar gyfer Newid 2030](#) sy'n amlinellu ein argymhellion a'n gweledigaethau allweddol ar gyfer gwella plismona a system cwynion yr heddlu ar gyfer pobl ifanc.

Mae'r Panel leuenctid yn cael ei weithredu gan [Leaders Unlocked](#), menter gymdeithasol sy'n cefnogi pobl ifanc i gael llais a dylanwad cryfach dros y materion sy'n effeithio ar eu bywydau.

2. Pwy all ymuno â'r Panel leuenctid?

Rydym yn chwilio am bobl rhwng 16 a 25 oed o ystod amrywiol o gymunedau sy'n byw **unrhyw le yng Nghymru a Lloegr**. Mae'r rôl hon ar agor i unrhyw un sydd â diddordeb ac yn awyddus i wneud cais.

Yn gyfan gwbl, rydym am recriwtio tua 15 o oedolion ifanc i ymuno â'r panel. Bydd y grŵp cyfan hyd at 35 o bobl ifanc, gan gynnwys rhai a oedd yn rhan o'r panel yn 2025-26.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n chwaraewyr tîm ac sy'n barod i gymryd rhan ym holl weithgareddau'r panel ieuencid. Hoffem yn arbennig recriwtio pobl ifanc o gefndiroedd gwahanol, gan gynnwys y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a'r rhai a allai fod â phrofiad personol uniongyrchol gyda'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol.

3. Os ydw i'n ymuno, beth fydd rhaid i fi wneud?

Rhwng Gorffennaf 2026 ac Ebrill 2027, bydd aelodau'r Panel yn:

- **Cymryd rhan mewn hyd at 5 cyfarfod Panel Ieuencid** (ar-lein ac wyneb yn wyneb). Yn y digwyddiadau hyn, bydd aelodau'n cymryd rhan mewn gwaith creadigol a chydweithredol gyda'u gilydd, gan gynnwys dylunio adnoddau ac ymgyrchoedd, a datblygu ein gweledigaethau hirdymor ar gyfer newid. Yn y sesiynau hyn byddwch yn datblygu sgiliau, yn meddwl am syniadau creadigol, ac yn adolygu cynnydd y prosiect.
- **Chwarae rhan flaenllaw yn dylunio a chyflwyno hyd at 3 digwyddiad ymgysylltu a dylanwadu rhanbarthol ledled Cymru a Lloegr.** Byddwch yn helpu i gynllunio a chynnal y digwyddiadau hyn, gan ddod â phobl ifanc leol ynghyd â phenderfynwyr allweddol yn eu hardal i wella systemau plismona, profiadau a pherthnasoedd yn y gymuned.
- **Dylanwadu ar lunwyr polisi cenedlaethol, IOPC, a sefydliadau plismona a phartneriaid.** Bydd gennych gyfleoedd i lunio a chyflwyno hyd at 5 digwyddiad dylanwadu cenedlaethol (ar-lein ac yn bersonol) i rannu eich gweledigaethau ar gyfer newid gyda phenderfynwyr cenedlaethol, gan greu effaith wirioneddol a newid systemau. Byddwch hefyd yn cael cyfleoedd i gyflwyno gwaith y Panel Ieuencid mewn cyfarfodydd a chynadleddau pwysig.

- **Llunio cyfathrebiadau cenedlaethol, cyhoeddiadau a chynnwys cyfryngau cymdeithasol IOPC.** Er enghraifft, bydd gennych y cyfle i lunio a chyfrannu at rifyn Plant a Phobl Ifanc sydd ar ddod o gylchgrawn plismona cenedlaethol IOPC, [sef Dysgu'r Gwersi](#).

4. Beth fydda i'n ei gael o fod yn rhan o'r panel ieuenctid?

Byddwch yn cael y cyfle i:

- **Drafod materion gyda phenderfynwyr** wrth i chi gwrdd â swyddogion allweddol o IOPC ac asiantaethau partner eraill mewn digwyddiadau Panel Ieuenctid a'u helpu i ddeall barn pobl ifanc ar blismona a system cwynion yr heddlu.
- **Datblygu eich sgiliau a'ch profiad**, lle gallech eu cynnwys yn eich CV a'u hamlygu mewn ceisiadau am addysg bellach/uwch neu gyflogaeth.
- **Ddod yn llysgennad i bobl ifanc eraill** drwy helpu i roi llais i bobl ifanc a sicrhau bod eu barn yn cael ei glywed.
- **Cwrdd â chriw newydd o bobl wych** wrth i chi weithio gydag aelodau'r Panel, pobl ifanc o bob cwr o Gymru a Lloegr a gweithwyr proffesiynol o lawer o sefydliadau gwahanol.
- **Gwneud gwahaniaeth go iawn trwy greu newid.** Mae gwaith y Panel eisoes wedi newid llawer o bethau yn IOPC a gyda heddluoedd. Mae'r gwaith rydych chi'n ei wneud fel aelod o'r panel ieuenctid yn gallu ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Os ydych chi eisiau helpu lleisiau pobl ifanc i gael eu clywed a dylanwadu ar newid, mae hon yn rôl wych i chi!

5. Sut ydw i'n gwneud cais?

Llenwch y ffurflen gais a'i anfon trwy e-bost erbyn **dydd Gwener 29ain** ^{Mai} i scarlett@leaders-unlocked.org

Os byddai'n well gennych, gallwch hefyd anfon fideo byr (llai na 5 munud) ohonoch chi'n egluro'ch atebion i gwestiynau'r cais atom.

Os ydych chi o dan 18 oed, rhaid i chi hefyd lenwi'r adran ar gyfer eich Rhiant / Gwarcheidwad / Gofalwr. Gofynnir i bob aelod o'r Panel ieuencid o dan 18 oed ddod â ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi i'r digwyddiad cyntaf.

6. Beth sy'n digwydd nesaf?

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau drwy e-bost erbyn dydd Gwener 29^{Mai} i scarlett@leaders-unlocked.org

Ar ôl y dyddiad cau, byddwn yn cynnal cyfweiliadau dros y ffôn gydag ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer. Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod am y canlyniad terfynol erbyn diwedd mis Mehefin.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â scarlett@leaders-unlocked.org

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais!